# CYNGOR SIR CEREDIGION

## GWASANAETH YSGOLION

## CORFF LLYWODRAETHU
## YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL MYNACH

## 4.14 – 5:15 PM, 18 MEHEFIN 2026

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol (Hybrid)** | Carl Cater (Cadeirydd y cyfarfod), Bethan James, Clare Raw, Rhydian Davies, Joyce George (Pennaeth). |
| **Clerc:** | Pauline Lucas |

| Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu: | | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|---|
| **1** | **YMDDIHEURIADAU:** | | |
| | Cyflwynwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Morris Jones, Gareth Jones, Bryn Shepherd a Teleri Lewis.<br>Roedd gan y cyfarfod gworwm felly aeth yn ei flaen. | | |
| **2**i | **DATGELU BUDDIANT / CYFRINACHEDD:**<br>Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o’r pwyntiau canlynol: | | |
| | a) | yr angen i ddatgelu eu buddiant mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu sydd dan drafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod; | |
| | b) | byddai unrhyw achos o ddatgelu buddiant yn cael ei gofnodi; | |
| | c) | bod yr eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd yn gyfrinachol ac nad oeddent i'w trafod yn gyhoeddus. | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi’r uchod. | | |
| 2ii | **AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y byddai’r Clerc yn:<br>cysylltu gydag unigolyn a enwyd yn yr ALl ynghylch sedd wag.<br>trefnu bod y sedd wag ar gyfer Rhiant Lywodraethwr yn cael ei hysbysebu | | |
| 2iii | **COFNODION:** | | |
| | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.03.2026 a byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd a'u hanfon ymlaen at governors@ceredigion.gov.uk | | |

| Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| 2iv | **MATERION YN CODI O'R COFNODION:** | |
| | Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod. | |
| 2v | **PWYLLGORAU:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi nad oedd unrhyw bwyllgorau wedi cwrdd ers y cyfarfod diwethaf. | |
| 2vi | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I RIENI 2025-2026:** | |
| | Bydd yr adroddiadau yn cael ei gwblhau a'i ddanfon i'r rhieni yn ystod tymor yr Hydref. | |
| 3i | **ADRODDIAD Y PENNAETH:** | |
| | Roedd copi o adroddiad y Pennaeth wedi'i rannu'n flaenorol i'r Aelodau. Cynhaliwyd trafodaeth ar y canlynol:<br>**Data Disgyblion**: Mae 41 disgybl ar y gofrestr a rhagwelir y bydd 37 ym mis Medi.<br>Mae 50% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaradir Cymraeg adre.<br>Mae 4% (2 ddisgybl) yn derbyn cinio am ddim.<br>Mae 7% (3 disgybl) ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>**Cynllun Datblygu'r Ysgol**:<br>**Blaenoriaeth 1**: Pa mor effeithiol yw'r strategaethau dysgu mewn datblygu rhuglder mathemateg meddylion disgyblion a hyder?<br>**Blaenoriaeth 2**: Sut all rhaglen ddarllen strwythuredig ar draws pob grŵp blwyddyn ddatblygu darllen y disgyblion.<br>**Blaenoriaeth 3**: Pa strategaethau all ysgolion eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion sy'n absenol yn aml neu sydd mewn perygl o dangyflawni?<br>**Blaenoriaeth 4**: Datblygu a gwella ardal awyr agored er mwyn gwella llesiant, ymddygiad a iechyd corfforol.<br>Nodwyd bod swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi ymweld â'r ysgol i gasglu tystiolaeth, siarad â'r disgyblion, monitro a chraffu.<br>Roedd profion cenedlaethol yn cael eu cynnal ac roedd gwelliant da i'w weld. Bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn dadansoddi'r data.<br>Diolchwyd a nodwyd llongyfarchiadau i Bethan a Rhiannon am eu gwaith yn datblygu llawlyfr rhifedd, a oedd wedi'i gydnabod fel ymarfer dda ar draws Ceredigion.<br>Bydd staff yn trafod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.<br>Roedd y disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddarllen Cymraeg. Ystyriwyd bod prosiect Caru Darllen yn fuddiol a byddai'n parhau.<br>Roedd gwaith i wella'r ardal allanol wedi'i gynllunio. | |

| Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| | **Staffio**: Croesawyd Fflur Griffiths yn ôl i'r ysgol yn dilyn cyfnod mamolaeth, ac mae'n gweithio 2 ddiwrnod yr wythnos.<br>Byddai swydd Cynorthwyydd Addysgu, 3 diwrnod yr wythnos yn cael ei hysbysebu i ddechrau ym mis Medi.<br>Byddai Ffion Banks yn gadael yr ysgol, a diolchwyd iddi am ei holl waith caled a'i hymrwymiad.<br>**Cyllid**: Nodwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol i drafod y gyllideb. Rhagwelwyd y byddai gwarged o oddeutu £97,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.<br>**Diogelu**: Nid oedd unrhyw achosion o fwlio wedi'u cofnodi yn ystod y tymor blaenorol. Roedd un achos wedi'i gyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>**Llongyfarchiadau**: Estynnwyd llongyfarchiadau i Bethan Jenkins ar gwblhau'r rhaglen hyfforddi Uwch Arweinwyr. Diolchwyd iddi am ei holl waith caled wrth arwain a chefnogi'r ysgol.<br>Diolchwyd i'r Llywodraethwyr a'r staff am eu holl gwaith caled dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. | |
| 3ii | **CYLLID:** | |
| | **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r gyllideb weithredol a osodwyd gan yr ysgol. | |
| 4 | **HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y byddai'r Clerc yn atgoffa pob aelod o ofynion yr hyfforddiant diogelu newydd. | |
| 5 | **POLISÏAU:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi bod y Polisïau Anstatudol canlynol wedi'u hadolygu, yn dilyn amserlen yr awdurdod lleol:<br>Diogelu gan gynnwys Archwilio<br>Anghenion Gofal Iechyd gan gynnwys Rheoli Meddyginiaethau<br>Atal Eithafiaeth<br>Polisi Cloi<br>Toiledau'r Ysgol<br>Datblygu Cynaliadwy<br>Codi Tâl<br>Bwyta'n Iach<br>Cwricwlwm (crynodeb a gweledigaeth)<br>Prosbectws yr Ysgol Prosbectws ysgolion: canllawiau i benaethiaid a chyrff llywodraethu [HTML] \| LLYW.CYMRU | |
| 5i | **POLISI ENGHREIFFTIOL CYFLOG ATHRAWON 2025/2026** | |

| Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| | Roedd copi o'r Polisi wedi'i ddarparu i'r Aelodau ymlaen llaw. **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi.** | |
| 6 | **GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:** | |
| | Doedd dim materion i'w trafod. | |
| 7 | **UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:** | |
| | Doedd dim materion i'w trafod. | |
| 8 | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y byddai cyfarfod hybrid nesaf y Corff Llywodraethu Llawn yn cael ei gynnal ar 16.11.2026 am 4.15pm. | |

PL
23:06:2026

Cadeirydd: ………………………………………………… Dyddiad: ………………….